Comisiynydd **Cenedlaethau'r Dyfodol** Cymru | **Future Generations** Commissioner for Wales

## Y Rôl: Cynghorydd Datblygu Cynaliadwy

**Yn atebol i:** Cyfarwyddwr Gweithredu ac Effaith.

**Graddfa 3:** £34,083 - £39,106 pro rata y flwyddyn

**Perthnasoedd allweddol/rhanddeiliaid:** Integreiddio gwaith ag Arweinwyr Cenhadaeth, cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill sy'n cefnogi cyrff cyhoeddus, Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud yn gryno (diben swydd)…

Gweithio'n rhagweithiol i gyflawni cenhadaeth graidd Cymru Can, sef 'Gweithredu ac Effaith: sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei gweithredu'n effeithiol a chydag uchelgais mewn ffordd sy'n gwella bywydau pobl Cymru nawr ac yn y dyfodol. '
Cefnogi cyrff cyhoeddus a BGCau i gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i bopeth a wnânt, gyda'r nod o gyflawni datblygu cynaliadwy. Gallai hyn gynnwys gweithredu fel deiliad perthynas ar gyfer grŵp o gyrff cyhoeddus a/neu Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chamau gweithredu fel darparu sylwadau neu gyngor, cynyddu ymwybyddiaeth neu arbenigedd trwy ddysgu a datblygu, gwneud cysylltiadau â phrosiectau, pobl neu sefydliadau eraill.

## Beth fyddwch chi'n gyfrifol amdano…

- Gweithredu'n annibynnol o fewn paramedrau eang Gweithredu ac Effaith gyda chyfrifoldeb am siapio cynhyrchion ac arwain rhai mentrau.
- Cydlynu, dylunio a chyflwyno agweddau ar gefnogaeth un i lawer y tîm. Mae ffocws ar deilwra adnoddau presennol ac alinio â hyfforddiant presennol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac eraill.
- Monitro ac asesu cynnydd tuag at amcanion llesiant sefydliadol a Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru drwy lens Cymru Can a chydgysylltu ag Adolygiadau Adran 20.
- Gwneud penderfyniadau gweithredol, sydd weithiau'n gymhleth, i gefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth graidd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Gweithredu ac Effaith.
- Defnyddio mewnwelediadau i roi cyngor strategol i Genedlaethau'r Dyfodol Cymru (Cyfarwyddwyr Cenhadaeth yn benodol) ar integreiddio eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws pob cenhadaeth a chynllun gwaith o fewn Cymru Can.

- Cynrychioli'r tîm yn hyderus i gyflwyno hyfforddiant, cyflwyniadau a digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar Weithredu ac Effaith yn dda a lle bo'n berthnasol y cenadaethau ehangach o fewn Cymru Can.
- Goruchwylio’r modd y mae Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru yn cofnodi ac yn cyfathrebu effaith a chanlyniadau’r cyngor a’r cymorth a ddarparwyd gennym.
- Meithrin cydberthnasau â phartneriaid ar draws pob sector, a rhyngddynt, i helpu i gyflawni Cymru Can.

## Y Person

### Sgiliau, Profiad a Chymwysterau…

**Hanfodol:**

• Mae gennych wybodaeth dda am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a dealltwriaeth ddatblygedig o'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni.
• Rydych yn dod â gwybodaeth ac yn deall sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithio ac mae gennych brofiad o weithio gyda chyrff cyhoeddus a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), gyda dealltwriaeth ragorol o'u gwaith mewn perthynas â'r Ddeddf.
• Mae gennych brofiad o weithredu'n annibynnol gyda chyfrifoldeb am siapio cynhyrchion ac arwain ar rai mentrau.
• Mae gennych feddylfryd dadansoddol a gallwch droi theori yn enghreifftiau ymarferol, trosglwyddadwy a gwneud syniadau cymhleth yn hawdd eu deall i wahanol gynulleidfaoedd.
• Gallwch gydbwyso blaenoriaethau cystadleuol, weithiau amlochrog, o fewn Cymru Can.
• Mae gennych brofiad o effeithio ar gyflawni amcanion sefydliadol a gallwch ddylanwadu ar gyfeiriad polisi mewnol.
• Rydych chi'n gyfathrebwr cryf, yn gyfforddus yn cynnull grwpiau o bobl gyda'i gilydd (ar-lein ac yn bersonol), siarad yn gyhoeddus ac ysgrifennu briffiau, diweddariadau ac adroddiadau.
• Mae gennych wybodaeth, arbenigedd, rhwydweithiau a phrofiad o fewn meysydd polisi sy'n ymwneud â natur, newid hinsawdd, iechyd, diwylliant, y Gymraeg a'r economi lles.
• Mae gennych brofiad o gynhyrchu briffiau polisi, ymchwil, cyngor a chyflwyno gwybodaeth yn ymwneud â'r meysydd polisi hyn yn arloesol. Mae gennych y gallu i drin setiau data, ymchwil a dadansoddi polisi. Rydych chi'n fedrus wrth ymgysylltu â phobl a'u cynnwys a gallwch feithrin a chynnal perthnasoedd cynhyrchiol gyda phobl o gefndiroedd amrywiol ac sy'n gweithio ar bob lefel o fewn sefydliad.

**Dymunol:**

- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol ar gyfer y rôl hon.

## Bydd angen i chi hefyd:

- Bod yn gyfforddus i weithio mewn amgylchedd ystwyth
- Bod yn wrth-hiliol a mynd i'r afael â phob math o wahaniaethu, gan groesawu a dathlu gwahaniaeth
- Cael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau mewn systemau, polisïau, gweithdrefnau ac arferion gwaith
- Gweithredu yn ogystal â thrafod pan mae’n dod at sôn am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Cofleidio ein gwerthoedd sefydliadol ym mhopeth a wnewch

*Mae'r disgrifiad swydd hwn yn arwydd o'r ystod o ddyletswyddau a chyfrifoldebau presennol ar gyfer y swydd, nid yw'n gynhwysfawr. Disgwylir i'r swydd hon ddatblygu dros amser gydag anghenion busnes a sgiliau a gwybodaeth deiliad y swydd ac mae'n hanfodol, felly, ei bod yn cael ei hystyried gyda rhywfaint o hyblygrwydd fel y gellir cwrdd ag anghenion ac amgylchiadau cyfnewidiol. Bydd pob newid yn cael ei drafod gyda deiliad y swydd.